OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 8

Troseddau a chosbau

### PENNOD 1

Troseddau

**Troseddau sy'n ymwneud â busnesau a gwasanaethau**

**42.**—(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn—

(a) paragraffau 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 1,

(b) paragraffau 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 2,

(c) paragraffau 7(1), 8(1) neu (2) neu 10(1) o Atodlen 3, neu

(d) paragraffau 7(1), 8(1), 9(1)[F1, 10(1) neu 11(3)] o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae gweithredwr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sydd, heb esgus rhesymol, yn torri'r gofyniad yn rheoliad 19(5) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 8 o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri paragraff 3(1) o Atodlen 8 yn cyflawni trosedd.

(5) Mae person sydd—

(a) yn torri paragraff 3(2) o Atodlen 8, neu

(b) heb esgus rhesymol, yn tynnu, yn cuddio neu'n difrodi hysbysiad neu arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan baragraff 7(2)(a) o'r Atodlen honno,

yn cyflawni trosedd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 42(1)(d) wedi eu hamnewid (22.12.2020 dod i rym am 12.01 a.m.) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1623), rhlau. 1(2), **2(4)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 42 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/03/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.